# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-16-09 Papur 1: 24 Tachwedd 2009

### Deisebau newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am y deisebau sydd i gael eu hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 24 Tachwedd 2009.

### (i) P-03-244 Cofrestr prosiectau bro a phrosiectau cymuned ar gyfer awdurdodau lleol

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyhoeddi cofrestr o brosiectau bro a phrosiectau cymuned, a gofynnwn nad yw prosiectau'n cael eu dal na'u gohirio pan fyddant ar y gofrestr oni bai fod hyn yn anorfod. Dylai'r gofrestr roi manylion y blaenoriaethau a'r amserlen ar gyfer cwblhau pob un o'r prosiectau hyn, gan roi i ddinasyddion wybodaeth glir ac agored am flaenoriaethau eu hawdurdodau lleol.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Vivienne Hadley, a chasglodd 124 o lofnodion. Hefyd, casglodd deiseb gysylltiedig 16 o lofnodion.  Mae'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 1A.

### (ii) P-03-246 Rhowch y gorau i'r terfyn cyflymder o 50mya  ar yr  M4 ger Casnewydd

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r angen am y terfyn cyflymder 50 mya rhwng Cyffordd 24 a 28 yr M4. Hoffem pe bai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno tystiolaeth am yr angen am y terfyn cyflymder hwn, ac yn darparu manylion am effaith y gostwng cyflymder, a'r cynnydd mewn amseroedd teithio o ganlyniad i'r terfyn cyflymder rhwng De Cymru a Lloegr, ar fuddsoddi a thwristiaeth .

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Arfon Hughes, a chasglodd 53 o lofnodion.

### (iii) P-03-254 Sylwadau trydydd parti mewn cyfarfodydd cynllunio

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno hawliau i drydydd parti lefaru mewn cyfarfodydd Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy Gymru

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb gan y Cynghorydd Nic Hodges, a chasglodd 94 o lofnodion. Mae'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 1A.

### (iv) P-03-256 Trenau ychwanegol i Abergwaun

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu arian ar gyfer 5 trên ychwanegol y dydd i Abergwaun.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Sam Faulkner a Joanne Grifiths, a chasglodd 10 o lofnodion. Hefyd, casglodd deiseb gysylltiedig â hi 1317 o lofnodion. Mae'r deisebwyr wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 1A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2009**